**Cofnodion cyfarfod Arbennig Cyngor Tref Dinbych a gynhaliwyd nos Fercher 6ed Rhagfyr 2017 yn Neuadd y Dref Dinbych am 6.30.**

**Presennol:** Cynghorwyr Roy Tickle (Cadeirydd), Colin L Hughes, Lara Pritchard, Marilyn Jones, Alyn Ashworth, Philip Stevens, Gaynor Wood-Tickle, Dyfrig Berry, Rhys Thomas, Guto Lloyd-Davies, Gwawr Cordiner, Gaynor Morgan-Rees & Rob Parkes; a Jenny Barlow (Clerc y Dref).

**Ymddiheuriadau:** Cyng Catherine Jones (Is gadeirydd) & Glenn Swingler.

Croesawodd y cadeirydd bawb i gyfarfod arbennig cyn cyllideb y cyngor.

**137. Trafod a chytuno ar flaenoriaethau ariannol newydd ar gyfer cyllideb 2018/2019.**

Gofynnodd clerc y dref am unrhyw wybodaeth ariannol newydd i'w drafod yng nghyfarfod heno. Byddai hyn yn cael ei gytuno mewn egwyddor a'i ychwanegu at y gyllideb a chostau a wnaed yn unol â hynny i'w drafod yng nghyfarfod cyllideb mis Ionawr.

Trafodwyd tri manylyn o hyd a chytunwyd eu bod yn cael eu hychwanegu at y gyllideb ar gyfer 2018/19 i'w drafod a'u cytuno.

**a) Eisteddfod yr Urdd Dinbych 2020.**

Mae angen i Ddinbych godi £60,000 tuag at y digwyddiad gyda'r Sir yn codi £300,000 yn gyffredinol. Cynigiwyd y rhoddir £6,000 ar gyfer y flwyddyn ariannol 2018/2019 gyda £6,000 pellach y ddwy flynedd ganlynol yn amodol ar gadarnhad yn y cyfarfodydd cyllideb flynyddol berthnasol.

**b) Cyflogi cynorthwyydd ar gyfer clerc y dref.**

Trafodwyd a chynigiwyd bod cynorthwyydd yn cael ei gyflogi i gynorthwyo clerc y dref gyda dyletswyddau gweinyddol. Byddai 15 awr yr wythnos oddeutu £10,500 y flwyddyn i gynnwys yr holl gostau.

**c) Cylchlythyr.**

Ar hyn o bryd nid oes gan Gyngor Tref Dinbych unrhyw ddeunydd hyrwyddo rheolaidd i roi cyhoeddusrwydd i'r gwaith a'r digwyddiadau y maent yn cyfrannu atynt. Awgrymwyd y dylid cynhyrchu cylchlythyr i hyrwyddo Dinbych a chynghori am y cyfraniadau ariannol mae Dinbych yn ei wneud ar gyfer y gymuned. Cynigiwyd neilltuo £1,000 ar gyfer hyn.

Awgrymwyd hefyd fod Cyngor Tref Dinbych yn adolygu ei gyfraniad presennol tuag at daliadau parcio ceir.
Gofynnwyd i glerc y dref gysylltu â Mike Jones, adran Priffyrdd Cyngor Sir Ddinbych gyda golwg ar ddod o hyd i gostau ychwanegol y gellir eu trafod yn y cyfarfod cyllideb ym mis Ionawr.

Dywedodd clerc y dref wrth y cynghorwyr y byddai unrhyw wybodaeth sy'n ofynnol ar gyfer cyfarfod y gyllideb ar gael ar gais.

Terfynwyd y cyfarfod gan y cadeirydd am 7.23 yh.

Arwyddwyd:.................................................................(cadeirydd)

Dyddiad..........................................